



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010

Trwyddedau Amgylcheddol Sut i lenwi'ch ffurflen apelio (Cymru)



INVESTOR IN PEOPLE



Mai 2013

CYNNWYS	Tudalen
Cyflwyniad – PWYSIG : Darllenwch hwn yn gyntaf	4
Dyfarnu costau apêl	5
Adran A – Manylion yr Apelydd	6
Adran B – Manylion yr Asiant (os oes un) ar gyfer yr apêl	6
Adran C – Manylion y Rheoleiddiwr	6
Adran Ch – Cyfeiriad safle'r apêl	7
Adran D – Y rhesymau dros yr apêl	8
Adran Dd – Seiliau'r apêl	8
Adran E – Dewis gweithdrefn	10
Adran F – Dogfennau ategol hanfodol	11
Manylion Personol	12
Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol	13
Cysylltu â ni	14
Adolygiad Barnwrol	14
Cwynion	14
Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus	15

**RHEOLIADAU CANIATÁU AMGYLCHEDDOL (CYMRU A LLOEGR)
2010**

TRWYDDEDAU AMGYLCHEDDOL (IPPC, LA-IPPC AC LA-PPC)

Sylwch: Mae'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon yn cyfeirio at weithdrefnau yng [**Nghymru yn unig**](#).

Roedd y wybodaeth hon yn gywir adeg ei chyhoeddi, ond nid oes iddi unrhyw statws cyfreithiol.

Ar 1 Ebrill 2013, rhoddodd Asiantaeth yr Amgylchedd y gorau i weithredu a throsglwyddwyd eu swyddogaethau i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Os hoffech gael y ddogfen hon yn Gymraeg, mewn print bras, mewn ffurf sain neu yn Braille, cysylltwch â'n llinell gymorth ar 029 2082 3866.

Cyflwyniad

Mae'n rhaid bod eich apêl a'r dogfennau ategol hanfodol yn cyrraedd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ystod yr amserlenni canlynol:

- a. yn ymwneud ag apêl yn erbyn hysbysiad diddymu, cyn i'r hysbysiad diddymu ddod i rym;
- b. yn ymwneud â thynnu yn ôl cais a wnaed yn briodol yn unol â pharagraff 4(2) Rhan 1 o Atodlen 5, cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr hysbysiad pellach a gyflwynwyd gan yr awdurdod yn datgan yr ystyrir bod y cais wedi cael ei dynnu yn ôl;
- c. yn ymwneud â hysbysiad gorfodi, amrywiad a gychwynwyd gan y rheoleiddiwr, hysbysiad gwahardd dros dro, hysbysiad cau cyfleuster gwastraff cloddio neu hysbysiad cau safle tirlenwi cyn pen 2 fis ar ôl dyddiad yr hysbysiad amrywio;

ch yn ymwneud â hysbysiad gwahardd, cyn pen 21 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad; neu

- d. mewn unrhyw achos arall, cyn pen 6 mis a rôl dyddiad y penderfyniad neu'r dyddiad yr ystyriwyd y gwnaed penderfyniad.

Os na fyddwn yn cael eich apêl a'ch dogfennau yn ystod y terfyn amser priodol, ni fyddwn yn derbyn eich apêl¹.

Derbynnir apeliadau a gyflwynir y tu allan i'r terfynau amser mewn amgylchiadau eithriadol iawn ynghylch apeliadau a amlinellir yn 'b' i 'd' uchod. Ni allwn dderbyn apeliadau yn erbyn hysbysiadau diddymu ('a' uchod) os cânt eu cyflwyno y tu allan i'r terfyn amser.

Ffurflenni apelio a lenwir â llaw a dogfennau eraill

Llenwch y ffurflen apelio mewn **LLYTHRENNAU BRAS** gan ddefnyddio **inc du**.

Dogfennau a deipiwyd

Mae dogfennau mewn ffont sans serif yn haws eu darllen. Defnyddiwch ffont fel Arial neu Verdana maint 11 pwynt neu fwy.

Os gwelwch yn dda:

- defnyddiwch bapur o faint **A4** lle bynnag y bo modd;
- **rhowch rifau** ar dudalennau'r ddogfen;

¹Byddwn yn ystyried derbyn apeliadau hwyr lle mae amgylchiadau eithriadol yn bodoli ynghylch eu cyflwyno'n hwyr. Dylid datgan y rhesymau am eu cyflwyno'n hwyr pan fyddwch yn eu cyflwyno.

- gwnewch yn siwr bod dogfennau a **lungopiwyd** yn glir ac yn ddarllenadwy;
- rhowch ffotograffau (rhai lliw os oes modd), mapiau, cynlluniau ac ati mewn **atodiad ar wahân** a chroesgyfeirio atynt yn y ddogfen;
- rhwymwch ddogfennau fel na ellir eu datod yn gyflym heb ddifrodi'r ddogfen. Peidiwch â defnyddio gwifren neu blastig troellog i'w rhwymo;
- peidiwch â defnyddio taflen glawr, clawr o unrhyw fath neu unrhyw ddefnydd rhwymo arall nad yw'n ychwanegu gwerth at y cynnwys na gwybodaeth;
- peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol atom oni bai ein bod yn gofyn i chi amdanynt; peidiwch â chynnwys nodiadau adlynol neu atodiadau mân y gellir eu datgysylltu'n hawdd neu eu colli;
- argraffwch ddogfennau ar ddwy ochr tudalen. Dylech ddefnyddio papur o ansawdd digon da fel na fydd rhywbeth a argraffwyd ar un ochr yn dangos drwy'r ochr arall; a
- gwnewch yn siwr bod graddfa, cyfeiriadedd a maint papur unrhyw fapiau a chynlluniau wedi'u dangos yn glir.

Dyfarnu costau apêl

Ni chodir tâl am gyflwyno apêl er bydd yn rhaid ichi a'r rheoleiddiwr dalu eich treuliau apelio eich hunain. Fodd bynnag, os bydd apêl yn cael ei phenderfynu ar ffurf **gwrandawriad neu ymchwiliad**, yna os oes gennych reswm da gallwch ofyn i Weinidogion Cymru neu'r Arolygydd orchymyn y rheoleiddiwr i dalu'r holl gostau neu ran ohonynt. Gall y rheoleiddiwr ofyn i chi dalu'r holl gostau neu ran ohonynt os oes ganddo reswm da dros wneud hynny.

Ni wnaiff Gweinidogion Cymru na'r Arolygydd hynny oni bai y gall y sawl sy'n cyflwyno'r apêl ddangos fod yr ochr arall wedi ymddwyn yn afresymol, a'u bod gorfod gwario arian yn ddiangen neu fod hyn wedi bod yn wastraffus.

Anfonwn atoch ein dogfen ar wahân, sef 'Dyfarnu costau mewn apeliadau cynllunio'. Mae'n bwysig eich bod yn darllen y ddogfen hon gan ei bod yn esbonio sut, pryd ac ar ba sail y gallwch gyflwyno cais neu y gellir cyflwyno cais yn eich erbyn.

LLENWI'R FFURFLEN APELIO

Yn y ddogfen hon rydym yn defnyddio'r un llythrennu a rhifo â'r ffurflen apelio Trwyddedau Amgylcheddol.

ADRAN A

Manylion yr Apelydd

Y sawl a gyflwynodd y cais i'r rheoleiddiwr yn wreiddiol yn unig sydd â'r hawl i apelio. Felly, mae'n rhaid i bob apêl ddangos enw'r ymgeisydd gwreiddiol.

Os nad chi gyflwynodd y cais gwreiddiol (e.e. efallai eich bod chi wedi prynu'r safle yn ddiweddar) a'ch bod am gyflwyno apêl, yna mae'n rhaid i chi gael caniatâd ysgrifenedig yr ymgeisydd / ymgeiswyr gwreiddiol i wneud hynny. Yna chi fyddai'n gyfrifol am unrhyw gostau a fyddai'n deillio o'r apêl. Rhowch eich enw ar y llinell "Enw" a'i ddilyn gan `ar ran' ac yna enw'r ymgeisydd gwreiddiol. Mae'n rhaid i chi anfon y caniatâd ysgrifenedig wedi'i lofnodi atom ynghyd â'ch ffurflen apelio.

ADRAN B

Manylion yr Asiant

Nid oes yn rhaid i chi gyflogi asiant i gyflwyno'ch apêl. Os byddwch yn penderfynu cyflogi asiant, bydd ef neu hi, yn ôl pob tebyg, yn llenwi'r ffurflen ar eich rhan.

Os oes gennych asiant, byddwn yn anfon yr holl lythyrau neu negeseuon e-bost yn syth at yr asiant. Ni fyddwn yn anfon copi atoch chi. Dylech sicrhau eich bod yn cadw mewn cysylltiad â'ch asiant am y trefniadau ar gyfer yr apêl.

ADRAN C

Manylion y Rheoleiddiwr – Cyfoeth Naturiol Cymru / Awdurdod Lleol

Yn ôl pob tebyg, bydd y wybodaeth hon mewn llythyrau a gawsoch gan y rheoleiddiwr ynghylch eich cais a'r hysbysiad penderfynu, os cafodd un ei gyhoeddi.

ADRAN CH

Cyfeiriad safle'r apêl

Mae'n rhaid i safle'r apêl fod yr un â'r safle a nodwyd yn y cais / trwydded.

Cod post

Mae'r wybodaeth hon yn bwysig iawn i ni. Os nad oes cod post ar gyfer safle'r apêl, yna rhowch god post yr adeilad agosaf. Os yw'r safle'n wledig ac yn anghysbell, rhowch wybodaeth er mwyn i ni allu ei adnabod (e.e. map bras yn dangos y safle a dwy ffordd leol o leiaf sydd ag enwau neu rifau).

1. A allai'r Arolygydd weld rhannau perthnasol y safle apêl yn ddigon da o dir cyhoeddus i ddyfarnu'r cynnig?

Os ydych yn meddwl y gall yr Arolygydd weld y safle'n ddigon da o dir cyhoeddus mae angen i chi ateb "Gall" i'r cwestiwn hwn. Mae hyn yn golygu y gall yr Arolygydd ddod i weld eich safle o dir cyhoeddus heb orfod gwneud unrhyw drefniadau penodol.

Os ydych yn meddwl y bydd yn rhaid i'n Harolygydd fynd ar eich tir er mwyn gweld y safle'n ddigon da, mae'n rhaid i chi ateb "Na all" i'r cwestiwn hwn. Mae hyn yn golygu y byddwn yn trefnu dydd i chi (neu'ch cynrychiolydd) a chynrychiolydd y rheoleiddiwr / yr awdurdod lleol (ALI).

Pwrpas ymweld â'r safle yw gweld y safle a'r hyn sydd oddi amgylch yng nghyd-destun y deunydd ysgrifenedig a ddarparwyd ar gyfer yr apêl. Ni dderbynnir unrhyw gynrychiolaethau ac ni chaniateir unrhyw drafodaethau ynghylch sail gwrthod yr apêl yn ystod yr ymweliad hwn.

2. Os atebwyd Gall i Gwestiwn 1, oes unrhyw faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch y byddai'n rhaid eu hystyried pe byddai ef/hi yn ymweld â'r safle heb fod neb gyda hwy? Os oes, disgrifiwch hwy isod.

Bydd yr Arolygydd yn archwilio'r safle fel rhan o'r broses apelio ac felly mae'n rhaid i ni gael gwybod pa gyfarpar diogelu neu ddillad diogelwch y bydd eu hangen. Mae'r cwestiynau canlynol yn rhestru'r math o wybodaeth y mae arnom ei hangen am safle'r apêl ac am unrhyw dir neu adeilad y bydd yn rhaid cael mynd arno neu i mewn iddo. Rhowch unrhyw wybodaeth berthnasol ar ddalen ar wahân o bapur.

- A yw'r safle yn anwastad neu os oes unrhyw risgiau eraill rydych yn gwybod amdanynt? Oes angen unrhyw esgidiau arbennig neu gyfarpar diogelwch personol ac a gyflenwir hyn ar y safle? (Rhestrwch).
- A oes unrhyw debygolrwydd y bydd anifeiliaid anwes neu anifeiliaid eraill ar y safle a allai fygwth diogelwch personol?
- A yw'r safle yn anghysbell a/neu gellir ei weld o adeiladau /eiddo / tir cyhoeddus a feddiennir neu ochr y ffordd?
- A oes derbyniad da yno ar gyfer ffonau symudol neu a oes ffôn cyhoeddus gerllaw pe bai angen y gwasanaethau brys?

- A oes unrhyw fannau lle mae angen cyfarpar arbenigol neu hyfforddiant i gael mynediad – unrhyw leoedd cyfyng?
- A gedwir unrhyw offer neu sylweddau peryglus yn y lleoliad hwn?
- A oes unrhyw debygolrwydd o ddod i gysylltiad â chemegau, asbestos, ymbelydredd neu a oes unrhyw beryglon eraill – lle mae angen defnyddio cyfarpar diogelwch personol – a allai effeithio ar iechyd a diogelwch personol? (Cyfeirir yn uniongyrchol at asbestos gan ei fod mewn adeiladau a adeiladwyd cyn iddo gael ei wahardd ym 1977).
- A fydd angen ysgol i weld safle'r apêl? Os felly:-
 - a. esboniwch pam fydd angen ysgol;
 - b. nodwch yr uchder y bydd yn rhaid dringo'r ysgol; a
 - c. nodwch a fydd yr ysgol naill ai'n sefydlog neu'n symudadwy – os bydd yn symudadwy sut y diogelir yr ysgol?
- A fydd angen edrych ar y safle o uchder (e.e. to neu falconi)?
- A oes mynediad rhwydd at y safle i rywun mewn cadair olwyn?

ADRAN D

Y rhesymau dros yr apêl

Dylai hysbysiad penderfynu'r rheolwyd fod yn gwbl glir os gwrthodwyd eich cais neu eu bod wedi gwrthod caniatáu amrywiad neu ddileu amodau trwydded amgylcheddol bresennol.

Os yw'ch apêl yn dilyn cais i amrywio neu ddileu amod, darperwch gopi o'r caniatâd gwreiddiol a rhestrwch rifau'r amodau mae eich apêl yn cyfeirio atynt.

Os ydych yn cyflwyno apêl yn erbyn methiant ar ran y rheoleiddiwr i benderfynu ynghylch eich cais o fewn y terfynau amser (dewis 9), gwiriwch y dyddiadau'n ofalus. Os ydych ag unrhyw amheuaeth ynghylch y terfynau amser sy'n berthnasol i'ch apêl, ailddarllenwch y cyflwyniad ar ddechrau'r ddogfen hon.

ADRAN DD

Seiliau'r apêl

Dylai seiliau eich apêl esbonio'n **llawn** pam ydych yn anghytuno â phenderfyniad y rheoleiddiwr. Dylai ddisgrifio'r agweddau hynny o'r penderfyniad y dymunech eu newid a sut y dylid gweithredu'r newid hwnnw.

Sylwch ar y canlynol:

- Dylech nodi seiliau eich apêl yn glir ac yn gryno a chanolbwyntio ar rinweddau'r cais. Dylech osgoi ailadrodd ag unrhyw wybodaeth nad yw'n berthnasol i'r materion dan sylw. Nid oes angen ailadrodd rhesymau'r rheoleiddiwr dros wrthod y cais ond dylech gynnwys

esboniad clir am bâm rydych yn anghytuno â phob un ohonynt. Nid yn ddigon i ddweud nad ydych yn eu derbyn - ni fydd hyn o gymorth i'r Arolygydd benderfynu ynghylch eich apêl. Ni fyddem yn disgwyl i'ch apêl fod yn hwy na 3,000 o eiriau.

- Dylech ddatgan p'un ai yw unrhyw ran o'r wybodaeth a amgaeir gyda'r apêl wedi ei defnyddio mewn **cais llwyddiannus gyfrinachedd masnachol yn unol â rheol 48**, gan ddarparu manylion perthnasol. Os na ddarperir y wybodaeth hon, bydd pob dogfen a gyflwynir ar gael yn gyhoeddus ac yn agored i'w harchwilio. Mewn achosion lle mae'r apelydd o'r farn y bydd y mater o gyfrinachedd yn codi yn ystod oes yr apêl, efallai y caiff yr achos ei adfer er mwyn i Weinidogion Cymru wneud y penderfyniad.
- Nid oes angen cynnwys polisi cenedlaethol gan fod y dogfennau hyn gan yr Arolygwyr. Fodd bynnag, dylech gyfeirio at rif unrhyw baragraff(au) sy'n berthnasol yn eich barn chi.
- Dylai nifer y dogfennau ategol, heblaw'r rhai hynny a restrir yn Adran F, fod cyn lleied â phosibl. Dylent fod yn hanfodol ac yn uniongyrchol berthnasol i'r apêl. Dylai dogfennau o'r fath gael eu croesgyfeirio'n glir yn sail yr apêl.
- Efallai y byddwch am gyflwyno atodiadau at sail eich apêl. Gall y rhain gynnwys adroddiadau a gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r rhesymau dros wrthod y cais ac unrhyw faterion sy'n destun anghydfod. Dylid gwneud defnydd cynnil o atodiadau.
- Os ydych o'r farn ei bod yn hanfodol cyflwyno llwybr o negeseuon e-bost ar gyfer eich apêl, dylech olygu'r negeseuon yn ofalus, er mwyn dileu ailadrodd fel y gellir canfod y pwyntiau allweddol yn glir.
- Gallwch ddefnyddio ffotograffau (rhaid lliw os oes modd) er mwyn dangos sail eich apêl. Os byddwch yn cyflwyno ffotograffau, mae'n rhaid i chi gynnwys manylion o ble y'u tynnwyd ar fap yn dangos hynny, pryd y'u tynnwyd a beth maent yn ei ddangos. Os ydych yn tynnu ffotograffau mewn manau cyhoeddus, cymerwch ofal i barchu cyfrinachedd unigolion y gallech eu cynnwys yn anfwriadol yn y ffotograff. Ni allwn ddychwelyd ffotograffau i chi nes bod y ffeil apelio wedi'i chau; ni ddychwelir ffotograffau oni bai eich bod yn gwneud cais penodol amdanynt.
- Byddai o gymorth i amgáu unrhyw geisiadau neu benderfyniadau blaenorol sy'n berthnasol i'r safle.
- Os ydych yn ymwybodol o unrhyw apeliadau a gyflwynwyd gan bobl eraill ynghylch y safle neu ar gyfer safleoedd cyfagos yna rhowch fanylion amdanynt – byddai'n well cynnwys cyfeirnod yr apêl neu gyfeiriad y safle.
- Os ydych yn cyflwyno apêl yn erbyn methiant y rheoleiddiwr i benderfynu ynglŷn â'ch cais, byddai o gymorth pe baech yn rhoi gwybod i ni pam rydych o'r farn y dylid cymeradwyo'ch cais.

ADRAN E

Dewis gweithdrefnau

Mae 3 gweithdrefn ar gyfer penderfynu ynghylch apêl - cynrychiolaethau ysgrifenedig, gwrandawiadau ac ymchwiliadau. Byddwn yn ystyried unrhyw farn rydych wedi'i datgan ynghylch pa weithdrefn fyddai'n fwyaf addas ar gyfer eich achos; rhaid i ni ystyried dewis y rheoleiddiwr hefyd pan fyddwn yn penderfynu sut yr aiff yr apêl yn ei blaen.

Ni fydd eich apêl, o reidrwydd, yn dilyn eich dewis chi. Mae Arolygwyr yn rhoi'r un sylw i bob apêl waeth beth fo'r weithdrefn.

Cynrychiolaethau Ysgrifenedig

Mae'r weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin ag apêl yn golygu cyfnewid datganiadau rhyngoch chi a'r rheoleiddiwr, a chaiff hyn ei ddilyn gan ymweliad â'r safle gan Arolygydd a fydd yn penderfynu ynghylch yr apêl. Fel arfer, dyma'r dull cyflymaf, symlaf a mwyaf cost-effeithiol o benderfynu ynghylch apêl.

(ar gyfer gosodiadau Rhan A1 yn unig a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru)

Ymdrinnir ag apeliadau yn unol ag ysbryd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apeliadau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003, OS 2003 Rhif 390 (W.52).

(ar gyfer gosodiadau Rhan A2 a B yn unig a reoleiddir gan Awdurdodau Lleol)

Bydd y gweithdrefnau apelio yn dilyn y rhai hynny a nodir ym Mharagraff 30.16 o *gyd Arweiniad Cyffredinol Polisiâu a Gweithdrefnau ar gyfer Gosodiadau A2 a B* Llywodraeth Cynulliad Cymru a Defra.

Gwrandawriad

Mae'r weithdrefn hon yn debygol o fod yn addas ar gyfer achosion mwy cymhleth lle mae angen trafodaethau manwl am rinweddau cynnig neu lle mae angen gofyn cwestiynau er mwyn sefydlu'r ffeithiau. Er y gallwch ddewis gwrandawriad, mae'n rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio gael ei bodloni bod eich apêl yn addas ar gyfer y weithdrefn hon.

Yn gyffredinol, cynhelir gwrandawiadau yn unol ag ysbryd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Gwrandawiadau) (Cymru) 2003, OS 2003 Rhif 1271. Fel arfer, nid yw gwrandawiadau yn addas ar gyfer apeliadau:

- Sy'n gymhleth neu'n ddadleuol ac sydd wedi creu llawer o ddiddordeb yn lleol; neu
- Lle mae angen croesholi tystion.

Dyddiad y gwrandawriad

- Byddwn yn cynnig dyddiad ar gyfer y gwrandawriad yn unol ag argaeledd Arolygydd.
- Cewch chi a'r rheoleiddiwr un cyfle'r un i wrthod y dyddiad cyn y byddwn ni yn pennu dyddiad.
- Bydd gennych y dewis hefyd i gytuno ar ddyddiad arall gyda'r rheoleiddiwr.

Ymchwiliad

Dyma'r weithdrefn fwyaf ffurfiol. Fel arfer, bydd gan y partïon yn gynrychiolwyr cyfreithiol ac efallai y gelwir ar dystion arbenigol i gyflwyno tystiolaeth. Cynhelir ymchwiliadau yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfyniadau gan Arolygwyr) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003, OS 2003 Rhif 1267, fel y bo'n briodol.

Cynhelir ymchwiliad os byddwch chi neu'r rheoleiddiwr yn penderfynu nad ydych am ddefnyddio'r weithdrefn cynrychiolaethau ysgrifenedig a'n bod ni o'r farn nad yw gwrandawriad yn addas. Ambell waith, hyd yn oed os bydd y ddau barti wedi dewis y weithdrefn cynrychiolaethau ysgrifenedig neu wrandawriad anffurfiol, gallwn benderfynu cynnal ymchwiliad. Os gwnawn benderfyniad felly, rhown wybod y rhesymau am hyn i chi.

Os ydych am i ni gynnal ymchwiliad, rhowch eich rhesymau yn y lle a ddarperir yn y ffurflen apelio.

Dyddiad yr Ymchwiliad

- Byddwn yn cynnig dyddiad ar gyfer y gwrandawriad yn unol ag argaeledd Arolygydd.
- Cewch chi a'r rheoleiddiwr un cyfle'r un i wrthod y dyddiad cyn y byddwn ni yn pennu dyddiad.
- Bydd gennych y dewis hefyd i gytuno ar ddyddiad arall gyda'r rheoleiddiwr.

ADRAN F

Dogfennau ategol hanfodol

Rydym wedi rhestru'r dogfennau y mae'n rhaid i chi eu darparu yn Atodlen 6(2)(1) er mwyn i'ch apêl fod yn ddilys ar y ffurflen apelio. Os na dderbyniwn yr **holl** ddogfennau ategol hanfodol cyn pen y cyfnod apelio priodol, ni allwn gynnal yr apêl a byddwch yn colli eich hawl i apelio. Gwnewch yn siwr eich bod wedi anfon popeth atom; os nad felly, bydd eich apêl yn cael ei hoedi tra byddwn yn ceisio'r dogfennau coll gennych neu mae'n bosibl ni chynhelir yr apêl os na fydd yr holl ddogfennau wedi'u cyflwyno cyn y terfyn amser priodol.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch y terfynau amser sy'n gymwys i'ch apêl, ailddarllenwch y cyflwyniad ar ddechrau'r ddogfen hon.

Gwnewch yn siwr eich bod wedi rhestru'r holl gynlluniau / lluniadau rydych yn eu hanfon atom ni ac y dylent gynnwys cyfeiriad at raddfa, cyfeiriadedd a maint y papur. Dylech anfon atom gopiâu o'r holl gynlluniau yr anfonwyd at y rheoleiddiwr gyda'ch cais (gan gynnwys cynlluniau a ddisodlwyd, gan eu hamlygu yn glir gyda'r gair "disodlwyd").

Pan fyddwch yn cyflwyno'ch apêl, ni ddylech geisio cyflwyno deunydd newydd nad ystyriwyd gan y rheoleiddiwr fel rhan o'r cais. Felly, dylai unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd yn ystod apêl fod yn uniongyrchol berthnasol ac yn hanfodol i'r achos ac mewn ymateb i'r rhesymau dros wrthod (os oes rhai).

MANYLION PERSONOL

Manylion personol yr apelydd / Manylion personol yr asiant (os oes un)

Ni fydd manylion personol a gyflenwir ar y dudalen hon yn hysbys i'r cyhoedd.

E-bost

Os byddwch yn rhoi tic yn y blwch i amlygu y byddai'n well gennych pe baem yn cysylltu â chi trwy gyfrwng neges e-bost, lle bo modd gwnawn anfon ein llythyrau atoch drwy gyfrwng e-bost ac ni fyddwn yn anfon copiâu papur atoch.

LLOFNODWCH I SOD

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb defnyddiol o'r pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud; gwiriwch yn ofalus fod eich ffurflen wedi'i llenwi a rhowch dic yn y blychau yn adrannau 1 - 4 er mwyn cadarnhau bod y camau priodol wedi'u cwblhau.

Llofnodwch a dyddio'r ffurflen apelio.

ANFON Y FFURFLEN

Sylwch fod yn rhaid i ni dderbyn eich ffurflen apelio a'r holl ddogfennau ategol cyn pen y terfynau amser priodol. Felly, gwnewch yn siwr eich bod yn anfon eich apêl mewn da bryd cyn y terfyn(au) amser.

Mae'n rhaid i chi anfon copi o'r ffurflen apelio wedi'i llenwi at y rheoleiddiwr (i'r cyfeiriad yr anfonwyd yr hysbysiad penderfynu ohono / neu'r cyfeiriad a ddangosir ar unrhyw lythyr a dderbyniwyd oddi wrth y rheoleiddiwr). Nid oes angen anfon yr holl ddogfennau ategol atynt unwaith eto. Os ydych yn cyflwyno unrhyw ddogfennau ategol nad oeddent yn rhan o'ch cais gwreiddiol, mae'n rhaid i chi anfon y rhain at y rheoleiddiwr ynghyd â'r ffurflen apelio.

PAN FYDDWN YN DERBYN EICH APÊL

Pan fyddwn yn derbyn eich ffurflen apelio:

1. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os yw'n ddilys a phwy sy'n ymdrin â hi.
2. Os yw popeth yn iawn, byddwn yn rhoi **dyddiad cychwyn** apel ac **amserlen** i chi.
3. Byddwn yn hysbysu'r rheoleiddiwr am ddyddiad cychwyn yr apel (os yw'n gymwys).

Os byddwch yn cyflwyno gwybodaeth neu gynrychiolaethau yn hwyr mae'n bosibl na allwn eu hystyried, efallai ni chânt eu gweld gan yr Arolygydd ac mae'n bosibl y cânt eu dychwelyd i chi.

Ar ddiwedd y broses apelio, cewch benderfyniad yr Arolygydd yn ysgrifenedig a fydd yn cynnwys manylion o resymau'r Arolygydd.

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Os byddwch yn cymryd rhan mewn apel, bydd y math o wybodaeth bersonol a geir yn eich sylwadau yn cynnwys eich enw, eich manylion cyswllt fel arfer ac unrhyw wybodaeth bersonol arall y byddwch yn penderfynu ei rhoi.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i brosesu'r apel, ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eich sylwadau ysgrifenedig ar gael i'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a phartion statudol eraill.

Rydym yn cyhoeddi dogfennau apel a sylwadau, gan gynnwys enwau a chyfeiriadau, ar y Porth Cynllunio. Caiff rhifau ffôn, rhifau ffacs a chyfeiriadau e-bost eu dileu cyn cyhoeddi. Rydym hefyd yn cyhoeddi penderfyniad yr arolygydd.

Mae'r arweiniad yn y daflen hon yn esbonio'r broses apelio'n fanylach ac fe'ch cynghorir i ddarllen y daflen hon cyn rhoi unrhyw sylwadau. Am ragor o fanylion, gweler ein datganiad preifatrwydd:
www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/online/about/privacystatement

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'n defnydd o wybodaeth bersonol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae mwy o wybodaeth am ein polisi cyfrinachedd ar gael ar ein gwefan yn www.planning-inspectorate.gov.uk, neu ar gais. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein polisi, neu os ydych am wneud cais am eich data personol, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a geir yn yr adran nesaf.

Cysylltu â ni

Gallwch gysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio yn y cyfeiriad isod:

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3866
Ffacs: 029 2082 5150
E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

Adolygiad Barnwrol

Mae'r penderfyniad am eich apêl yn derfynol; ar ôl iddo gael ei roi, ni all Gweinidogion Cymru na'r Arolygydd ystyried cynrychiolaethau pellach na rhoi sylwadau ar rinweddau neu ddiffygion yr achos.

Gellir herio'r penderfyniad yn y llysoedd yn unig drwy adolygiad barnwrol. Dylid cyflwyno cais am ganiatâd i gynnal adolygiad barnwrol i Lys Gweinyddol yr Uchel Lys Cyfiawnder. Dylid gwneud hyn yn fuan a chyn pen 3 mis o ddyddiad y penderfyniad fan bellaf.

Os gwrth-droir yr apêl yn dilyn achos gerbron unrhyw lys, hysbysir y prif bartion a gofynnir iddynt gyflwyno unrhyw gynrychiolaethau pellach cyn pen 28 diwrnod. Mae bosibl bryd hynny y gall Gweinidogion Cymru ofyn am wrandawriad gael ei gynnal neu ei ailagor ac yna gwneir penderfyniad eto ynghylch yr apêl.

Cwynion

Os oes gennych unrhyw gwynion neu gwestiynau ynghylch y penderfyniad, neu'r modd y gwnaethom ymdrin â'r apêl, gallwch ysgrifennu neu anfon neges e-bost at ein Swyddog Cwynion:

Y Swyddog Cwynion
Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3889
Ffacs: 029 2082 5150
E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

Byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn a gallwch ddisgwyl ateb llawn cyn pen tair wythnos. Fodd bynnag, ni allwn ailystyried apêl os bydd penderfyniad eisoes wedi'i wneud. Gellir gwrthwynebu'r penderfyniad yn y llysoedd drwy adolygiad barnwrol.

Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Os oes gennych gŵyn am y modd y gwnaethom ymdrin â chi neu'r modd y gwnaeth y rheoleiddiwr ymdrin â'r achos, mewn rhai achosion, gallwch ofyn i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ymchwilio i'r mater. Fodd bynnag, ni all yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ymchwilio i gŵyn am benderfyniad cynllunio oblegid eich bod chi a'r rheoleiddiwr yn anghytuno yn ei gylch, ac nid oes gan yr Ombwdsmon y grym i newid penderfyniad. Mae llyfryn sy'n esbonio sut i gyflwyno cwyn ar gael o swyddfa'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150 (bydd bob galwad ffôn ar gyfradd leol)
Ffacs: 01656 641199
E-bost: ask@ombudsman-wales.org.uk,
Gwefan: www.ombudsman-wales.org.uk.